PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD LLUN, 23 RHAGFYR 2024

PRESENNOL Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

W.T. Evans	J.K. Howell	D. Jones	H. Jones
M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.A. Curry	K. Madge	D.E. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Cynghorydd **Error! No document variable supplied.**

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)
Cynghorydd **Error! No document variable supplied.**

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
S. Martin, Cyfreithiwr
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.30 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Cooper.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Math o Fuddiant
M.J.A. Lewis	8 – Mr Gary Paul Evans – Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.	Mae ganddo gysylltiad â gwraig yr ymgeisydd (noder - daeth yn ymwybodol o'r buddiant ar ôl i'r pwyllgor benderfynu mynd i sesiwn breifat a gadawodd Siambr y Cyngor pan gafodd y mater ei ystyried)

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD ISBWYLLGOR TRWYDDEDU 'B' A GYNHALIWYD AR 15 HYDREF, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2024, yn gofnod cywir.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 24 HYDREF, 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024 yn gofnod cywir.

5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

6. MRS TRACY MAVIS DIXON - DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mrs Tracy Mavis Dixon o 130 Heol Cwmaman, y Garnant, Rhydaman yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am yr amgylchiadau a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mrs Dixon.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld Mrs Dixon ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mrs Dixon yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod Mrs Dixon yn parhau i ddal ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat. gyda rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

Y RHESWM: Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod Mrs Davies yn rhywun addas a phriodol i feddu ar Drwydded.

7. MR JONATHAN MARVIN DAVIES - CAIS I ADNEWYDDU DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Jonathan Marvin Davies o 23 Maes yr Ehedydd, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor nad oedd Mr Davies yn bresennol yn y cyfarfod ac aeth ymlaen i roi gwybod am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Gan gofio nad oedd Mr Davies yn bresennol yn cyfarfod:

PENDERFYNWYDD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL ohirio cais Mr Jonathan Marvin Davies i'r Pwyllgor Trwyddedu nesaf.

Y RHESWM: I roi cyfle pellach i Mr Davies fod yn bresennol gerbron y Pwyllgor Trwyddedu.

8. MR GARY PAUL EVANS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

(NODER: Ar ôl i'r pwyllgor fynd i sesiwn breifat, datganodd y Cynghorydd Jean Lewis fuddiant a gadawodd Siambr y Cyngor ac ni chymerodd ran yn ei ystyriaethau ar ôl iddi ddod yn ymwybodol o gysylltiad â'r ymgeisydd)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Gary Paul Evans o 18 Parc Gwyn, Trefechan, Caerfyrddin am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni/hurio preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Ar hynny bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Evans (ynghyd â'r bartner) o ran y cais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth hefyd gan Heddlu Dyfed-Powys ar y materion a godwyd, a chafodd Mr Evans gyfle i ymateb iddi.

Cyn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor, rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod am gynnwys sylw a ddaeth i law yn cefnogi'r cais. Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Evans yn cael ei wrthod.

Ar hynny

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWWYD, gan y mwyafrif, ganiatáu cais Mr Gary Paul Evans am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

<u>Y rheswm</u>

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei benderfyniad yn unol â pholisi perthnasol y Cyngor ac felly roedd yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf